

## Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun 21ain Hydref 2024 / Monday, 21st October 2024

Festri Tabernacle Fetry, Pencader

8.00 yh / pm

**Presennol / Present:** M. Griffiths, H. Lewis, A. James, V. Davies, A. Davies, R. Thomas, G. Jones. Anita Evans (Clerc/Clerk), Cynghorydd Sir/County Councillor L. Evans.

**Ymddiheuriadau / Apologies:** D. Griffiths, D. Davies, J. Jones, S. Mason, W. Cole.

<p><b>1. Croeso:</b> Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.</p>	<p><b>1. Welcome:</b> Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.</p>
<p><b>2. Datgan diddordeb:</b> neb</p>	<p><b>2. Declaration of interest:</b> none</p>
<p><b>3. Adroddiad yr Heddlu –</b> Nid oedd SCCH Anwen Davies (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) yn bresennol.</p>	<p><b>3. Report from Police -</b> PCSO Anwen Davies was not present.</p>
<p><b>4. (i) Cofnodion Mis Medi (16.09.2024)</b> -derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan A. James. <b>(ii) Cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid (09.10.2024)</b> - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan A. Davies.</p>	<p><b>4. (i) Minutes of September Meeting (16.09.2024)</b> – accepted as correct record. Proposed by A. Davies, seconded by A. James. <b>(ii) Minutes of Finance Sub-Committee (09.10.2024)</b> - accepted as correct record. Proposed by H. Lewis, seconded by A. Davies.</p>
<p><b>5. Materion yn Codi:</b> (i) <u>Cynqor Sir Gâr</u> - Adran Briffyrd - ymateb wedi ei dderbyn i'n rhestr o ymholiadau. Nid oedd unrhyw sylw ynglyn â'r goeden mewn teiar ar glos Pwll Dŵr Llanfihangel-ar-arth. O ran y bolard ar y palmant ger Arwerydd, Pontweli, nid yw'r Cyngor Sir yn derbyn bod un wedi bod yno erioed, felly, caiff lluniau yn dangos y lleoliad gwreiddiol eu hafnon.  (ii) <u>Cyfleusterau</u> - nododd y Clerc ei bod yn dal i chwilio am brisiau glanhau – nodwyd yr angen i wneud ymholiadau i gwmni Danfo am gost glanhau am dri niwrnod.  (iii) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader</u> - nodwyd bod pedwar Cynghorydd a'r Clerc wedi cyfarfod yn y Fynwent ar 16eg Hydref er mwyn gweld y gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn. Mae llawer o'r gwaith a nodwyd heb ei gyflawni. Adroddodd y Clerc ei bod yn cael anhawster i gysylltu â'r rheolwr. Nodwyd hefyd yr angen i osod posteri fyny i hysbysu bod yr adeilad ar y safle ar gau dros dro.</p>	<p><b>5. Matters Arising:</b> (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> - Highways Department - has responded to our list of queries. However, no response was received regarding the tree growing in a tyre on the forecourt of Pwll Dŵr, Llanfihangel-ar-arth. In relation to the missing bollard on the pavement outside Arwerydd, Pontwelly, the County Council denies the existence of this bollard, therefore photographic evidence of where it was secured to the ground will be forwarded.  (ii) <u>Public Conveniences</u> - the Clerk noted she continues to request costs for cleaning – the need to contact Danfo to enquire the costs of cleaning for three days per week was noted.  (iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u> - it was noted that four Councillors and the Clerk met at the Cemetery on 16<sup>th</sup> October to inspect the progress of work undertaken to date. Several of the jobs as noted in the specification have not yet been completed. The Clerk reported the difficulty being encountered in contacting the project manager. The need to place notices to advise that the building at the Cemetery is currently closed was noted.</p>

(iv) Y Gofgolofn - mae Abbey Masonry wedi addo glanhau ddiwedd Hydref. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Parch. B. Timothy a'r Parch. C. Bolton i arwain y gwasanaeth ar 10ed Tachwedd a hefyd bydd Mr R. Davies yn darparu'r uchelseinydd. Mae cais hefyd wedi ei anfon i'r Heddlu am bresenoldeb ar y Sgwâr Pencader am 10.45 y.b.

(v) Diffibrilwyr - Mae'r ddau ddiffibrilydd (un gyferbyn â'r Bee Hive a'r llall tu allan i Siop Premier) a oedd wedi cael eu prynu gan Bwyllgor y Carnifal wedi eu cofrestru i'w cynnal gan A. Munday (sydd wedi ei ariannu gan Fferm Wynt Brechfa) wedi eu rhoi ar y gylchdaith. Diolch i Jodie Taylor Williams am ei chymorth I sicrhau bod hyn wedi mynd yn ei flaen. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgeisio am nawdd oddi wrth Fferm Wynt Brechfa i dalu am focs a stand i osod diffibrilydd yn Nolgran. Bydd H. Lewis yn cadarnhau'r safle gyda pherchennog y tir.

(vi) Cysgodfeydd Bysus a'r Gatau Gwyn - mae'r Cyngor Sir wedi ein hysbysu bydd y gwaith glanhau wedi ei orffen erbyn 8ed Tachwedd.

(vii) Hysbysfyreddau - mae K. Lewis wedi trwsio'r hysbysfwrdd yn New Inn. Bydd hefyd yn edrych ar yr hysbysfyreddau ym Mhontweli ac ym Mynwent Alltwalis yn y bythefnos nesaf.

(viii) Data Wrth Gefn - gofynwyd i D. Davies edrych i fewn i'r mater yma ynglyn â chyfrifiadur y Cyngor Cymued a ddefnyddir gan y Clerc. Os na fydd yn bosib iddo wneud, yna cytunwyd gofyn i'r sawl sydd yn arfer cynnal a chadw'r cyfrifiadur.

(iv) War Memorial - Abbey Masonry have promised to clean the Memorial at the end of October. The Clerk confirmed that Rev. B. Timothy and Rev. C. Bolton will lead the service on 10<sup>th</sup> November and Mr. R. Davies will provide the sound system. A request for police attendance at Pencader Square at 10.45 a.m. has also been submitted.

(v) Defibrillators - The two defibrillators (opposite Bee Hive and outside Premier Siop) purchased by the Carnival Committee have been now registered on The Circuit to be maintained by A. Munday (funded by Brechfa Wind Farm). We thank Jodie Taylor Williams for her assistance in enabling this matter to proceed. This Council has also applied for a grant from the Brechfa Wind Farm for funding for a defibrillator box and stand to be placed in Dolgran. H. Lewis will confirm its siting with the landowner.

(vi) Bus Shelters and White Gates - the County Council has advised that the cleaning work will be completed by 8<sup>th</sup> November.

(vii) Noticeboards - K. Lewis has completed the work at New Inn. He has also agreed to inspect the noticeboards at Pontwelly and Alltwalis Cemetery during the next fortnight.

(viii) Data Backup - D. Davies has been asked to look into this matter in respect of the Community Council's computer used by the Clerk. In the event of his being unavailable to do so, then it was agreed to ask the person who usually maintains the computer.

## 6. Ariannol:

Derbyniwyd a chymeradwywyd y Fantolen Ariannol hyd at 31.09.2024. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan G. Jones.

Diolchwyd i H. Lewis am baratoi'r fantolen.

### Biliau i'w talu:

Cyflogau: Medi £3,758.29;

Costau'r Clerc - post a ffôn (26.07.2024 hyd at 26.09.2024): £12.50;

Farmyard Nurseries: cafnau blodau 2024 - £904.00;

Dyfed Alarms - sgrîn cylch-cyfyng newydd a cynnal a chadw (£324.00);

Dŵr Cymru: Pencader - £67.54 ac Alltwalis - £14.43.

I'w talu: cynigiwyd gan A. James, eiliwyd gan G. Jones.

## 6. Financial:

The Financial Statement up to 31.09.2024 was received and approved. Proposed by A. Davies, seconded by G. Jones

H. Lewis was thanked for preparing the statement.

### Bills to Pay:

Wages: September: £3,758.29;

Clerk's telephone and postage (26.7.2024 to 26.09.2024): £12.50;

Farmyard Nurseries: planters 2024 - £904.00;

Dyfed Alarms - new cctv screen and maintenance: £324.00;

Welsh Water: Pencader - £67.54; Alltwalis - £14.43.

To be paid: proposed by A. James, seconded by G. Jones.

<p><b>7. Cynllunio:</b> (wedi e-bostio i aelodau'r Is-Bwyllgor cynllunio - dim gwrthwynebiad)</p> <p>(1) Cwm Macwydd;  (2) Forest View Llanfihangel-ar-arth;  (3) Fferm Wynt - tri cheuffos wrth y fynedfa o gyfeiriad Gwyddgrug.</p>	<p><b>7. Planning Matters:</b> (e-mailed to Planning Sub-Committee Members - no objection):</p> <p>(1) Cwm Mackwith;  (2) Forest View Llanfihangel-ar-arth;  (3) Wind Farm – three drainage culverts at the entrance from the direction of Gwyddgrug.</p>
<p><b>8. Lwfansau Cyngorwyr:</b></p> <p>Nododd y Cadeirydd yr angen i drafod ac ystyried argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (I.R.P.W.) yng nghyfarfod Mis Tachwedd.</p>	<p><b>8. Councillors' Allowances:</b></p> <p>The Chair noted the requirement to consider and discuss the recommendations received from the Independent Remuneration Panel for Wales (I.R.P.W.) at the next meeting in November.</p>
<p><b>9. Dogfennaeth:</b></p> <p>(i) Model Broctocol ar Berthasoedd Rhwng Aelodau a Swyddogion  (ii) Datganiad Gweledigaeth a Phwrpas  (iii) Cynllun Bioamrywiaeth  (iv) Cylch Gorchwyl ar Gyfer Cyfarfodydd Cyngorau  (v) Presenoldeb Aelodau 2023-2024  (vi) Cofrestr Datgan Diddordeb Aelodau 2023-2024</p> <p>Cyflwynwyd y ddogfennaeth uchod, ag eithrio'r Cynllun Bioamrywiaeth (iii). Derbyniwyd dogfennau (i), (ii), (iv), (v) a (vi). Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan R. Thomas.</p> <p>Diolchwyd i M. Griffiths am y gwaith o baratoi a chyflwyno'r ddogfennaeth uchod.</p>	<p><b>9. Documentation:</b></p> <p>(i) Model Protocol on Members / Officer Relations  (ii) Mission and Purpose Statement  (iii) Biodiversity Plan  (iv) Terms of Reference for Council Meetings  (v) Members' Attendance 2023-2024  (vi) Register of Interests 2023-2024 – Declarations by Members</p> <p>The above documents, except for the Biodiversity Plan (iii), were presented. Documents (i), (ii), (iv), (v) and (vi) were accepted. Proposed by A. Davies, seconded by R. Thomas.</p> <p>M. Griffiths was thanked for his work in preparing and presenting the above documents.</p>
<p><b>10. Ardal Bicnic:</b></p> <p>Nodwyd nad oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn oddi wrth Gyfreithiwr y Cyngor Cymuned hyd yn hyn.</p>	<p><b>10. Picnic Area:</b></p> <p>It was noted that no response had been received to date from the Community Council's Solicitor.</p>
<p><b>11. Ceisiadau am Gymorth Ariannol.</b></p> <p>Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth y canlynol a chytunwyd i'w cefnogi fel a nodwyd:</p> <p>(i) Urdd Gobaith Cymru: £50.00. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan A. Davies.  (ii) Cerebral Palsy: £100.00. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan R. Thomas.  (iii) Canolfan Deuluol Pencader: £250.00. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan V. Davies.</p> <p>Gan fod rhai ceisiadau wedi eu derbyn yn hwyr iawn, cytunwyd o hyn ymlaen bydd y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar ddiwrnod cyntaf o'r mis lle bydd ceisiadau yn cael eu hystyried, sef Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref.</p>	<p><b>11. Applications for Financial Assistance</b></p> <p>Applications were received from the following and it was agreed to support as noted:</p> <p>(i) Urdd Gobaith Cymru: £50.00. Proposed by H. Lewis, seconded by A. Davies.  (ii) Cerebral Palsy: £100.00. Proposed by H. Lewis, seconded by R. Thomas.  (iii) Pencader Family Centre.: £250.00. Proposed by A. Davies, seconded by V. Davies.</p> <p>Due to the extreme lateness of receipt of some applications, it was agreed that the closing date for all futures applications will be the 1<sup>st</sup> day of the month when applications will be considered, i.e. January, April, July and October.</p>

<p><b>12. Gohebiaeth:</b> mae'r canlynol wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr:</p> <p><b>(i) <u>Un Llais Cymru:</u></b></p> <p>(a) Rôl Llywodraethiant ac Atebolrwydd Sector Cynghorau Tref a Chymuned.</p> <p>(b) Dyddiadau Hyfforddiant (Medi-Rhagfyr 2024)</p> <p>(c) Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-2026</p> <p>(ch) Nodyn Datblygu Ymarfer - Cylch Gorchwyl ar Gyfer Cyfarfodydd Cynghorau</p> <p>(d) Cymunedau Digidol ar Zoom - 25.10.2024</p> <p><b>(ii) <u>Cyngor Sir Gâr:</u></b></p> <p>(a) Hysbysiad Cwblhau Adolygiad o Ddosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio</p> <p><b>(iii) <u>Eraill:</u></b></p> <p>(a) Clerc Llanfair/Cellan – gwahoddiad i ddau gynrhychiolydd i ymuno â fforwm i drafod y llwybr arfaethedig ar gyfer y twrbeini gwynt a'r peilonau.</p> <p>(b) Angor - wedi cysylltu drwy'r wefan i ofyn am gyfle i siarad â'r Cyngor am waith yr elusen. Bydd y Clerc yn gofyn am ragor o wybodaeth.</p>	<p><b>12. Correspondence:</b> the following have been e-mailed to Councillors:</p> <p><b>(i) <u>One Voice Wales:</u></b></p> <p>(a) Role, Governance and Accountability of the Community and Town Council Sector</p> <p>(b) Training Dates (September-December 2024)</p> <p>(c) Consultation: Scrutiny of the Welsh Government Draft Budget 2025-2026</p> <p>(d) Practice Development Note - Terms of Reference for Council Meetings.</p> <p>(e) Digital Communities on Zoom – 25.10.2024</p> <p><b>(ii) <u>Carmarthenshire County Council:</u></b></p> <p>(a) Notice of Conclusion of Review of Polling Districts and Polling Places.</p> <p><b>(iii) <u>Other:</u></b></p> <p>(a) Clerk of Llanfair / Cellan Community Council - invitation for two representatives to join a forum to discuss the proposed route for pylons and turbines.</p> <p>(b) Angor - contacted via website to ask for an opportunity to provide the Council with information regarding the work of the charity. and wants to discuss the work they do. The Clerk will request further details.</p>
<p><b>13. Unrhyw Fater Arall</b> (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr / Clerc yn unig):</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans:</p> <p>(i) llinellau melyn ym Mhontweli - penderfyniad yn Tachwedd;</p> <p>(ii) annog pobl i ymweld â'r Hwb yng Nghaerfyrddin i drafod credit pensiwn, defnyddio'r we ac ati;</p> <p>(iii) Cyngor Sir yn dechrau gwella arwynebedd y ffordd Llanfihangel/Llanllwni.</p> <p>A. Davies:</p> <p>(i) heol Glantweli Fach yn wael o'r ffordd fawr hyd y bont.</p> <p>V. Davies:</p> <p>(i) problem dŵr ochr isaf i Penrhiw wedi dechrau eto ac yn ddifrifol wedi'r tywydd garw diweddar;</p> <p>(ii) angen torri'r borfa o gwmpas y cafn blodau ym Mhontweli.</p>	<p><b>13. Any Other Business</b> (information from Councillors and Clerc only):</p> <p>County Councillor L. Evans:</p> <p>(i) the decision on yellow lines near Wilkes' Head in Pontwelly will be made in November;</p> <p>(ii) County Council encourages people to visit the Hub in Carmarthen to discuss pension credit, use of internet etc.</p> <p>(iii) Work on road surface between Llanfihangel-ar-arth and Llanllwni pending.</p> <p>A. Davies:</p> <p>(i) road to Glantwelly Fach is in very poor condition especially to the bridge.</p> <p>V. Davies:</p> <p>(i) serious problems with surface water yet again between Penrhiw and by-pass following recent wet weather conditions;</p> <p>(ii) grass cutting needed around the flower planter opposite Valley Services in Pontwelly.</p>

<p>G. Jones:</p> <p>(i) angen sylw ar y gratin o flaen Siop “Food to Go” ym Mhencader - angen ymholi pwy sydd biau hwn - BT neu Dŵr Cymru?</p> <p>R. Thomas:</p> <p>(i) Rhiw Alltwalis - nifer o broblemau gyda’r heol yn gwanhau.</p> <p>H. Lewis:</p> <p>(i) mae cyflwr y ffordd ochr draw mynedfa Glantweli Fawr yn gwaethygu ac yn achosi problemau i yrrwyr;</p> <p>(ii) gyrrwyr hefyd yn cael ffwdan i ddod allan o hewl Dolgran oherwydd bod coed a brigau yn pwysu allan dros y bont o Gwmgwen. Cynigiodd y Cynghorydd Sir L. Evans siarad â’r perchennog.</p> <p>M. Griffiths:</p> <p>(i) tynnu sylw at yr angen i aelodau sicrhau eu bod yn dilyn hyfforddiant Côt Ymddygiad os nad ydynt eisoes wedi gwneud yn ystod y tymor etholiadol cyfredol.</p>	<p>G. Jones:</p> <p>(i) the grating outside “Food to Go” in Pencader requires attention – need to ascertain ownership - BT or Welsh Water?</p> <p>R. Thomas:</p> <p>(i) Alltwalis Hill - many problems with road weakening.</p> <p>H. Lewis:</p> <p>(i) the condition of the road opposite the entrance to Glantweli Fawr is deteriorating and causing difficulties for drivers;</p> <p>(ii) drivers also encountering difficulties at the junction from Dolgran to the main road due to growth of trees and branches at Cwmgwen hampering visibility. County Councillor L. Evans offered to speak with the owner.</p> <p>M. Griffiths:</p> <p>(i) drew attention to the need for members to ensure they complete Code of Conduct training if not already undertaken during the current electoral term.</p>
<p><b>14. Dyddiad y Cyfarfod Misol Nesaf –</b> Nos Lun, 18ed Tachwedd 2024 am 7.30 y.h.</p>	<p><b>14. Date of Next Monthly Meeting:</b> Monday, 18<sup>th</sup> November, 2024 at 7.30 p.m.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.55 y.h. / Meeting ended 9.55 p.m.

